CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# GŴYS A RHAGLEN

ar gyfer

**CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN**

a gynhelir yn

**SIAMBR Y CYNGOR
SWYDDFA'R SIR
LLANGEFNI**

**DYDD MERCHER
9 RHAGFYR 2015
am 2.00 o'r gloch**

# SUMMONS AND AGENDA

for a

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

to be held at the

**COUNCIL CHAMBER
COUNCIL OFFICES
LLANGEFNI**

**WEDNESDAY
9 DECEMBER 2015
at 2.00 pm**

# R H A G L E N

1. **COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 29 Medi 2015.

2. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

3. **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR.**

4. **ASESIAD CORFFORAETHOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU**

Derbyn cyflwyniad gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch yr uchod.

5. **CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR 2016/17**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel a gyflwynwyd a derbyniwyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 30 Tachwedd, 2015 ynghyd âg atodiadau i'r adroddiad.

6. **PWYLLGOR SAFONAU – PENODI AELODAU NEWYDD O'R CYNGHORAU CYMUNED**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro.

7. **ADOLYGIAD O GYNLLUN RHEOLI'R ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL (AHNE) 2015-2019**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd fel a gyflwynwyd a derbyniwyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 30 Tachwedd, 2015.

8. **RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 O'R CYFANSODDIAD**

Cyflwyno'r Rhybudd o Gynnig isod gan y Cynghorydd R Meirion Jones:-

*"Yn dilyn cwestiwn i'r Cyngor ar 14 Mai 2015 penderfynodd y Cyngor i gyfeirio'r mater o warchod enwau tai ac anheddau i Grŵp Tasg Iaith y Cyngor i lunio argymhellion a pholisi penodol i'w gyflwyno i'r pwyllgor perthnasol, ac wedyn penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ar 19 Hydref 2015 i gymeradwyo polisi ar enwi a rhifo strydoedd a thai sy'n hyrwyddo traddodiad ac etifeddiaeth ddiwylliannol yr Ynys.*

*Yn dilyn hyn gofynnir i'r Cyngor Sir ddatgan ei gefnogaeth i ymdrechion o fewn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru i gynnwys darpariaeth ym mesur Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) i warchod enwau cyffredin cyfredol a hanesyddol adeiladau a*

*thirnodau, i gynnwys tai ac anheddau, ac mai'r manylion hynny fydd yr ystyr i'r rhestr o enwau lleoedd yn ardal yr awdurdod."*